PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

SEMESTER 2 2026

YSGOL FUSNES ABERYSTWYTH

CB27220: Ymddygiad Defnyddwyr a Phrynwyr

Amser : **2 AWR**

Atebwch 4 cwestiwn

NI CHANIATEIR CYFRIFIANNELL

MAE MYFYRWYR YN CAEL CYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN NAILL AI YN Y GYMRAEG NEU'R SAESNEG

Ar ôl eistedd, DIM OND tudalen flaen y llyfr(au) atebion a'r papur presenoldeb y mae myfyrwyr yn cael eu llenwi.

PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR ARHOLIAD DROSODD TAN Y DYWEDIR WRTHYCH AM WNEUD HYNNY.

Atebwch 4 cwestiwn (cyfanswm 100 marc)

1. Canfyddiad. Beth yw'r tri ffactor mewn prosesu gwybodaeth awyrgylch siopau? (9 marc) Gan ddefnyddio enghreifftiau, esboniwch y canfyddiadau cadarnhaol a negyddol o bob un (16 marc). (Cyfanswm 25 marc)

2. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng anghenion a dymuniadau? Defnyddiwch o leiaf 3 enghraifft i'ch helpu i esbonio'r gwahaniaethau hyn (15 marc). Sut mae marchnatwyr yn diwallu anghenion/dymuniadau yn llwyddiannus (10 marc)? (Cyfanswm 25 marc)

3. Beth yw'r 4 prif arddull dysgu (8 marc)? Rhowch enghraifft o bob un (4 marc). Sut mae marchnatwyr yn defnyddio'r rhain i newid ymddygiad defnyddwyr yn gadarnhaol (13 marc)? (Cyfanswm 25 marc)

4. Beth yw agwedd allweddol damcaniaeth Freud (seicdreiddiol/psychoanalytical)? (7 marc) Beth yw'r 3 maes y mae'n eu cynnwys (6 marc)? Esboniwch bob maes gan ddefnyddio enghreifftiau (12 marc). (Cyfanswm 25 marc)

5. Pa fodel a ddefnyddir i ddeall agweddau a sut mae marchnatwyr yn ei ddefnyddio? (5 marc) Beth yw ei enw mewn cyfathrebu marchnata? (5 marc) Enwch y tri maes o fewn y model ac esboniwch nhw (15 marc). (Cyfanswm 25 marc)

6. Esboniwch y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer pryniant â chyfranogiad uchel yn erbyn pryniant â chyfranogiad isel (10 marc). Defnyddiwch enghreifftiau a damcaniaeth/fframweithiau perthnasol i ategu eich ateb (15 marc). (Cyfanswm 25 marc)

DIWEDD Y PAPUR